CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Canllaw Gofal Personol

# Rhondda Cynon Taf

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Derbyn Disgyblion
3. Deddfwriaeth
4. Diffiniad o Ofal Personol
5. Egwyddorion Arweiniol
6. Gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid
7. Polisi Gofal Personol, Cynlluniau Gofal Personol ac Asesiadau Risg
8. Staffio
9. Cadw Cofnodion
10. Cael gwared ar gewynnau
11. Prosesau ar gyfer disgyblion â diagnosis corfforol a meddygol
12. Cyfeirio at gyngor pellach
13. Atodiadau:
    - Atodiad A - Polisi enghreifftiol
    - Atodiad B - Cytundeb
    - Atodiad C - Cynllun Gofal Personol yn Amgylchedd yr Ysgol
    - Atodiad D - Cynllun Rheoli Gofal Personol Unigol
    - Atodiad E - Cofnod o Ymyrraeth Gofal Personol

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i gefnogi disgyblion ag anghenion gofal iechyd. Mae hynny'n cynnwys cefnogi disgyblion ag anghenion gofal personol er mwyn sicrhau bod gyda nhw fynediad llawn at addysg. Rydyn ni'n gweithio gyda rhieni/gwarcheidwaid, a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion gofal personol yn cael eu deall a'u cefnogi'n effeithiol. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy wrando ar farn a dymuniadau disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yn ogystal â chyngor gweithwyr addysg ac iechyd.

Mae'r ddogfen yma wedi'i datblygu yn ganllaw i gefnogi ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf i ddiwallu anghenion gofal personol disgyblion yn ein hysgolion.

Diben y canllaw yma yw:

- Nodi egwyddorion arwain i ysgolion lynu atyn nhw
- Egluro goblygiadau deddfwriaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd
- Pwysleisio dyletswyddau ysgolion i ddiogelu iechyd a diogelwch disgyblion a staff
- Cynghori ar bolisïau a chynlluniau gofal personol
- Cynghori ar faterion sy'n ymwneud â diogelu plant
- Darparu cyngor ymarferol i ysgolion

Mae'r canllaw yma'n berthnasol i'r bobl ganlynol:

- Plant sydd methu defnyddio'r toiled yn annibynnol cyn mynychu'r ysgol ac sy'n derbyn gofal personol wedi'i ddarparu gan yr ysgol.
- Disgyblion oed ysgol sydd angen hyfforddiant toiledau neu drefniadau arbennig i ddiwallu eu hanghenion gofal personol yn yr ysgol am ystod o resymau meddygol, emosiynol neu gymdeithasol.

## 2. Derbyn disgyblion

Mae plant bellach yn dechrau darpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau ac ysgolion pan maen nhw'n iau. Bydd y mwyafrif o blant wedi cael arweiniad ar sut i ddefnyddio'r toiled erbyn iddyn nhw ddechrau, ond fydd nifer fach o blant ddim wedi dysgu sut i wneud hyn eto. Mae'n garreg filltir ddatblygiadol a bydd angen help ar y plant yma i reoli eu hanghenion gofal personol a hunanofal. Mae rhagor o blant a phobl ifainc ag anableddau ac anghenion meddygol yn mynychu lleoliadau addysg prif ffrwd. Mae angen cymorth â thasgau gofal personol gan nifer sylweddol o'r plant yma, a gallai hyn gynnwys cymorth wrth ddefnyddio'r tŷ bach. Os yw'r medr yma'n cael ei anwybyddu neu'i ohirio, efallai y bydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth drwy gydol y dydd i reoli gofal personol plant a phobl ifainc (2 i 19 oed) wrth iddyn nhw ddatblygu.

**Ac yntau'n ddarparwyr addysg, mae gan ysgolion ddyletswydd i ddiwallu anghenion plant sydd wedi profi oedi o ran datblygiad personol yn yr un modd â bydden nhw'n diwallu anghenion plentyn ag oedi o ran datblygiad ieithyddol neu oedi arall. Bydd oedi o ran gofal personol yn galw am yr un lefel o gymorth ac aweiniad o ran dysgu.**

## 3. Deddfwriaeth

### *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC1991)*

Mae'r confensiwn yma'n nodi pob hawl, gan gynnwys hawliau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y plentyn. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi'r hawliau dynol sylfaenol y mae gan bob plentyn hawl iddyn nhw. Dyma bedair prif egwyddor y Confensiwn sy'n ymwneud â chynorthwyo disgyblion ag anghenion gofal personol:

- *Anwahaniaethol* - Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau barchu'r hawliau sydd wedi eu nodi yn y Confensiwn presennol a'u sicrhau i bob plentyn heb gamwahaniaethu o unrhyw fath, ni waeth beth fo hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, genedigaeth neu statws arall y plentyn neu ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol.
- *Lles y plentyn* - Bydd lles y plentyn yn sylfaen i bob gweithred sy'n ymwneud â phlant.
- *Yr hawl i oroesi a datblygu* - Sicrhau goroesiad a datblygiad y plentyn hyd eithaf ein gallu.
- *Safbwynt y plentyn* - Sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd.

Mae'r erthyglau canlynol yn yr UNCRC yn sicrhau bod anghenion gofal personol y plentyn yn cael eu diwallu mewn lleoliadau ysgolion:

<u>Erthygl 3</u>
Rhaid i les y plentyn fod yn flaenoriaeth ym mhob gweithredu sy'n ymwneud â phlant.

<u>Erthygl 16</u>
Mae gan bob plentyn yr hawl i breifatrwydd.

<u>Erthygl 23</u>
Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus mewn amodau sy'n hyrwyddo urddas, annibyniaeth a rôl weithredol yn y gymuned.

<u>Erthygl 27</u>
Mae gan bob plentyn yr hawl i ansawdd byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol, cymdeithasol a meddyliol.

<u>Erthygl 28</u>
Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.

**Dylai ysgolion gydweithio â rhieni/gwarcheidwaid a gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu hateb gyda pharch ac urddas wrth gefnogi eu hanghenion gofal personol.**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno deddfwriaeth gwahaniaeth ar sail anabledd gyda deddfwriaethau cydraddoldeb eraill. Mae'r ddeddf yn amlygu'r ffyrdd amrywiol y mae hi'n anghyfreithlon i drin pobl eraill. Rhaid peidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un â chyflwr ag enw sy'n effeithio ar elfennau o ddatblygiad personol, a rhaid gwneud addasiadau rhesymol.

Dyletswyddau Rhagweithiol: Mae angen i'n holl bolisïau a chanllawiau barchu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagweithiol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor ac i ysgolion fod yn rhagweithiol mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn 'rhagweithiol' o ran bod rhaid pwyso a mesur beth yw'r rhwystrau sy'n atal unigolion anabl rhag manteisio ar wasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau ac ystyried camau gweithredu ymlaen llaw yn ei sgil.

**Canllaw Llywodraeth Cymru - Cefnogi Disgyblion ag Anghenion Gofal Iechyd 2017**

Rhaid i Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ddilyn y canllaw statudol yma wrth ymgymryd â dyletswyddau hyrwyddo lles disgyblion mewn lleoliadau addysg, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal personol. Mae'r canllaw yma'n nodi mai cyfrifoldeb yr ysgol yw diwallu anghenion disgyblion sydd yn ei gofal ac yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Dylai staff ddeall a gweithio o fewn egwyddorion cynhwysiant.
- Dylai gwersi a gweithgareddau gael eu cynllunio mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rheiny sydd ag anghenion gofal iechyd gymryd rhan lawn.
- Dylai staff ddeall eu rôl wrth gefnogi disgyblion ag anghenion gofal iechyd a dylai hyfforddiant perthnasol gael ei ddarparu.
- Dylai staff deimlo'n hyderus eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
- Dylai staff fod yn effro i anghenion eu disgyblion drwy rannu anghenion gofal iechyd y disgybl unigol mewn modd priodol a chyfreithlon.
- Pryd bynnag y bo'n briodol, dylai disgyblion gael eu hannog a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 sydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu rhoi ar waith gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ysgol neu sefydliad addysgol arall. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant ag anghenion gofal iechyd. Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i Awdurdod Lleol RhCT a'r holl gyrff llywodraethu fod yn effro i ganllawiau wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn yr adran yma.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (LlC)**

Mae'r Cod ADY yn nodi ei amcanion sy'n sail i system ADY cynhwysol. Mae egwyddorion y cod yn datgan y dylai diwallu anghenion disgyblion fod yn rhan o ddull ysgol gyfan.

'Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei

anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a’i mwynhau.' (Cod ADY 2021, Pennod 3)

## 4. Diffiniad o Ofal Personol (Cychwynnol)

Mae gofal personol yn cynnwys rhoi cymorth i’r disgyblion hynny sy ddim yn gallu gwneud pethau drostyn nhw eu hunain - naill ai oherwydd eu hoedran ac aeddfedrwydd neu oherwydd oedi o ran datblygiad neu anabledd - gydag agweddau ar ofal personol. Efallai y bydd angen cymorth ar ddisgyblion ag anableddau gyda symud a chario, bwyta ac yfed a phob agwedd ar ofal personol gan gynnwys:

- Golchi
- Bwyta ac yfed
- Gwisgo a dadwisgo (gan gynnwys nofio)
- Defnyddio'r toiled a'r mislif
- Rhoi eli haul ymlaen

## 5. Egwyddorion Arweiniol

- Mae'r disgybl sydd angen gofal personol yn cael ei drin â pharch bob amser; mae lles ac urddas y plentyn/person ifanc yn hollbwysig.
- Diogelu hawliau a lles disgyblion drwy ystyried urddas, preifatrwydd, dewis a diogelwch yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1991), Deddf ALNET (2018) a Dyletswyddau Cydraddoldeb (2010).
- Sicrhau bod disgyblion yn cael eu trin yn gyson pan fyddan nhw'n cael gofal personol agos ym mhob lleoliad.
- Er mwyn tawelu meddyliau rhieni/gwarcheidwaid bod pob aelod o staff yn wybodus am ofal personol a bod pryderon unigol yn cael eu hystyried a bod ymdrech i'w datrys pan fo hynny’n bosibl.
- Galluogi rhieni/gwarcheidwaid i fod yn rhan o unrhyw benderfyniad am ofal personol eu plant.
- Darparu arweiniad, hyfforddiant, goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i staff ac i sicrhau arfer da.
- Sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid a phlant a phobl ifainc (lle bo’n briodol) yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu protocolau gofal personol sydd wedi'u cytuno.
- Sicrhau bod y lleoliad addysg yn rhannu manylion protocol gofal personol unigol sydd wedi'i gytuno ag asiantaethau eraill sy’n cefnogi’r disgybl.

## 6. Gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid

- Bydd ysgolion yn sicrhau eu bod nhw'n gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid er mwyn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu mewn amgylchedd diogel, ystyrlon a pherthnasol. Bydd ysgolion yn arddangos eu bod nhw'n deall yr anawsterau.
- Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn meithrin perthynas yn seiliedig ar ymddiriedaeth er mwyn sicrhau bod anghenion gofal personol disgyblion yn cael eu diwallu yn yr ysgol ac ar ymweliadau addysgol gan aelodau o staff.

- Mae gan rieni/gwarcheidwaid rôl allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu annibyniaeth eu plant (yn ôl gallu'r plentyn) a defnyddio'r toiled, pan fo'n bosibl. Mae'n bwysig cynllunio dulliau cyson y mae modd eu defnyddio ar draws nifer o leoliadau (er enghraifft, ysgolion a gartref).
- Dylid cynnal cyfarfod i'r Garfan o Amgylch y Plentyn (TAC) cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol a phan mae newidiadau arwyddocaol yn digwydd. Os yw'r plentyn yn dechrau'r ysgol ac angen gofal personol, dylid cynnal cyfarfod TAC cyn gynted â phosibl.
- Dylai rhieni/gwarcheidwaid lofnodi llythyr a chytundeb i gytuno ag unrhyw ofal personol yn ogystal â chymorth gan asiantaethau eraill.
- Rhaid defnyddio terminoleg sy'n gyfarwydd i rieni/gwarcheidwaid.

**Mae'n annerbyniol dibynnu ar rieni neu wneud iddyn nhw deimlo bod rhaid iddyn nhw fynychu'r ysgol i ddiwallu gofynion gofal iechyd a gofal personol y disgyblion sydd yn eich gofal.**

## 7. Polisi Gofal Personol, Cynlluniau Gofal Personol ac Asesiadau Risg

Rhaid i bob ysgol gael polisi gofal personol ar gyfer pob disgybl sydd angen gofal personol, **ac mae cyfrifoldeb ar yr ysgol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.** Mae polisi enghreifftiol wedi'i gynnwys yn y ddogfen yma ac mae modd ei addasu at ddefnydd yr ysgol.

Dylai pob ysgol hefyd gael asesiad risg ysgrifenedig, gan nodi risgiau a sut mae modd eu lliniaru nhw cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

## 8. Staffio

Rhaid cadw at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol/lleoliad.

- Rhaid i bob aelod o staff gymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu er mwyn darparu gofal personol.
- Dylai un oedolyn fod yn gyfrifol am newid un disgybl heblaw bod rheswm teg dros gael mwy nag un oedolyn yno, megis pan mae anabledd corfforol sy'n golygu bod rhaid codi'r disgybl. Mae hi'n bosibl y bydd rhai amseroedd pan mae pryderon diogelu yn galw am oedolyn arall i fod yn bresennol, fodd bynnag, dylai hyn ddim fod yn bolisi cyffredinol.

### Arfer gorau

- Sicrhau bod aelodau eraill o staff yn effro i'r dasg sy'n cael ei chynnal
- Esbonio'r hyn sy'n digwydd i'r disgyblion cyn i'r weithdrefn ofal ddechrau
- Ymgynghori â chydweithwyr pan mae'n rhaid mynd yn groes i weithdrefn/cynllun
- Cofnodi'r rhesymeg dros fynd yn groes i weithdrefn/cynllun a rhannu'r wybodaeth yma â'r disgybl a'i rieni/gwarcheidwaid
- Ystyried anghenion goruchwyliaeth disgyblion ac ond aros yn yr ystafell mewn sefyllfaoedd sy'n galw am hynny

## 9. Cadw Cofnodion

Bydd cofnodion cywir yn cael eu cadw pan mae disgybl yn derbyn gofal personol. Bydd y cofnodion yma'n gryno ond yn cynnwys dyddiad, amser, hyd y gofal personol ac unrhyw sylwadau, megis newidiadau yn ymddygiad y plentyn. Bydd hi'n amlwg pwy oedd yn bresennol ym mhob achos yn ogystal â dilyn cyngor GDPR. (Atodiad D). Bydd cofnodion yn cael eu cadw yn ffeil y plentyn ac maen nhw ar gael i rieni/gwarcheidwaid ar gais.

## 10. Cael gwared ar gewynnau

Bydd rhaid i ysgolion gysylltu â darparwyr gwastraff yr Awdurdod Lleol i drefnu casgliad cewynnau am ffi benodol. Ddylai ysgolion ddim rhoi cewynnau wedi'u defnyddio ym magiau disgyblion iddyn nhw fynd â nhw gartref.

## 11. Prosesau ar gyfer disgyblion â diagnosis corfforol a meddygol

I rai plant, gall eu hanghenion meddygol neu gorfforol ychwanegol olygu bod angen iddyn nhw ddefnyddio'r toiled yn fwy aml na phlant eraill. Bydd rhaid i ysgolion nodi hyn yn rhan o'u harchwiliad hygyrchedd, a bydd rhaid i gynrychiolydd ar ran yr Awdurdod Lleol gynnal archwiliad amgylcheddol. Bydd hefyd rhaid i'r ysgol gynnal asesiad risg ar gyfer y disgybl. Bydd angen ystafelloedd hylendid ar ysgolion gyda byrddau/teclynnau newid sy'n codi neu offer arall os dydy plant ddim yn gallu cynnal eu pwysau. Bydd angen hyfforddiant trin â llaw/symud ar staff i gynorthwyo'r plant yma i symud / newid safle. Mae'n debygol y bydd angen cyngor y Therapydd Galwedigaethol / Ffisiotherapydd o ran defnyddio'r offer / trin y plant yma ar gyfer eu hanghenion corfforol a meddygol.

### Manylion cyswllt

Mae Vision Products yn darparu gwelyau newid ac offer arall megis offer codi a chario ar gyfer disgyblion ag anghenion corfforol a meddygol. Rhaid archebu'r offer yma trwy banel corfforol a meddygol yr Awdurdod Lleol. Mae'r offer yn cael eu dynodi ar gyfer disgyblion unigol. Mae modd i'r offer yma gymryd 12-16 wythnos i gyrraedd a bydd rhaid eu harchebu a'u dynodi ar gyfer disgyblion ag anghenion corfforol a meddygol. Argymhellir bod gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac/neu athro meddygol/corfforol arbenigol yn archebu'r offer yma.

Bydd angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CIU) ar rai disgyblion, a chaiff y rhain eu hysgrifennu gan yr ysgol ar y cyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae modd i hyn gynnwys:

- Cymorth wrth fwyta, e.e. gastrostomi (bwydo peg) a bwydo trwy diwb NG
- Gweinyddu meddyginiaeth mewn argyfwng
- Rhaglen ffisiotherapi / therapi galwedigaethol
- Tylino/rhyngweithio dwys
- Rhoi meddyginiaethau ar y croen (e.e. eli ecsema)

## 12. Cyfeirio at gyngor pellach

Mae Ymwelwyr Iechyd Arbenigol yn cynnal gweithdai defnyddio'r toiled a gofal personol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n iau na 5 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r canllaw yma wedi'i addasu o gyngor gan *Bladder and Bowel UK.*

**Bladder and Bowel UK**

Mae *Bladder & Bowel UK* yn elusen genedlaethol sy'n gweithio ym maes byw ag anabledd. Mae'r elusen yn cynnig cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r bledren a'r coluddyn ar gyfer pobl o bob oed a lefel gallu, gan gynnwys plant a phobl ifainc. Mae'r elusen yma wedi'i staffio gan nyrsys arbenigol sy'n darparu ystod o adnoddau ar-lein a hyfforddiant wedi'i deilwra am ddim i gynorthwyo plant a phobl ifainc, eu rhieni, gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo ymataliaeth a rheoli anymataliaeth. Dyma ddibenion y gwasanaeth:

- Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn effro i sut i hyrwyddo pledrennau a choluddion iach, gan gynnwys yfed digon o ddŵr. Dylai disgyblion fod yn derbyn o leiaf hanner eu cymeriant hylif dyddiol yn yr ysgol.
- Sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at doiledau glân sydd â stoc dda drwy gydol y dydd, a bod digon o amser iddyn nhw ddefnyddio'r cyfleusterau.
- Dylai ysgolion newid dillad disgyblion a pheidio â gofyn i rieni/gwarcheidwaid ddod i wneud hynny os yw'r disgybl yn cael damwain yn ystod y dydd.
- Dylai ysgolion dderbyn pob disgybl a pheidio â gwrthod derbyn disgyblion sydd heb ddysgu defnyddio'r toiled.

**Gwefan: [www.bbuk.org.uk](http://www.bbuk.org.uk)**

**ERIC Elusen Pledren a Choluddyn i Blant**

Mae ERIC wedi ymrwymo i helpu plant a phobl yn eu harddegau i reoli a goresgyn cyflyrau ymataliaeth sy'n peri gofid. Boed yn broblem â hyfforddiant toiled, gwlychu'r gwely, rhwymedd neu faeddu, mae ERIC yn darparu cymorth a gwybodaeth arbenigol i blant a phobl ifainc ac yn galluogi rhieni, gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol i'w helpu nhw i weithio tuag at iechyd pledren a choluddyn da. Mae cymorth teuluol ERIC yn cynnwys llinell gymorth, gweithdy i rieni a theuluoedd, adnoddau ar-lein a gwybodaeth am ddim. Mae modd i weithwyr proffesiynol gael mynediad at linell gymorth gyfrinachol am ddim ERIC, pecynnau cymorth ar-lein, adnoddau a gwybodaeth.

**Gwefan: [www.eric.org.uk](http://www.eric.org.uk)**

**Rheoli Problemau Pledren a Choluddyn mewn Meithrinfeydd, Ysgolion a Cholegau, Hydref 2019.**

Canllaw i arweinwyr, perchnogion, aelodau'r cyrff llywodraethu, staff ac ymarferwyr ysgolion.

https://www.eric.org.uk › managing-continence-issues-at-nursery-school-and-college

**Arferion Da Gwasanaethau Ymataliaeth, 2000**.

Ar gael am ddim gan Yr Adran Iechyd, PO Box 777, Llundain, SE1 6XH neu www.doh.gov/uk/continenceservices.htm

**Atodiad A**

**Polisi enghreifftiol**

Mae (Enw'r Ysgol neu'r Ganolfan) wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ofal personol plant a phobl ifainc yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd proffesiynol bob amser.

Rydyn ni'n cydnabod bod angen trin pob plentyn a pherson ifanc â pharch wrth roi gofal personol. Dylid osgoi rhoi sylw i unrhyw blentyn neu berson ifanc mewn ffordd sy'n achosi trallod, embaras, anghysur neu boen.

**Mae lles ac urddas plentyn neu berson ifanc o'r pwys mwyaf a bydd preifatrwydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei barchu.**

**Rhesymeg**

Mae ein polisi gofal personol wedi'i ddatblygu i ddiogelu plant, pobl ifainc a staff pan mae galw am ofal personol. Mae'r egwyddorion a gweithdrefnau'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â gofal personol plant a phobl ifainc.

Mae staff ysgolion yn rhan o yswiriant yr Awdurdod Lleol, cyn belled â bod y rhieni/gwarcheidwaid, addysg ac iechyd yn cytuno â Pholisi Gofal Personol yn cyd-fynd â Chynllun Gofal Iechyd/Cynllun Gofal Personol y disgybl ac yn ei gofnodi (yn ôl yr angen).
Mae modd diffinio gofal personol fel unrhyw weithgaredd sydd ei angen i ddiwallu anghenion personol plentyn unigol yn rheolaidd neu un tro. Mae modd i'r gweithgareddau yma gynnwys:

- Bwydo
- Gofal ceg
- Ymolchi
- Newid dillad
- Defnyddio'r toiledau
- Cymorth cyntaf a chymorth meddygol, yn ogystal â'r Cynllun Gofal Iechyd perthnasol
- Goruchwyliaeth dros blentyn sy'n ymwneud â gofal personol

Mae gan rieni/gwarcheidwaid gyfrifoldeb i roi gwybod i'r ysgol am unrhyw anghenion gofal personol sydd gan eu plentyn.

**Egwyddorion Arferion Da ym Maes Gofal Personol**

Dyma egwyddorion sylfaenol Gofal Personol y mae canllawiau ein polisïau wedi'u selio arnyn nhw:

Mae gan bob disgybl hawl at addysg:

- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i fod yn ddiogel
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i breifatrwydd personol
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael ei werthfawrogi yn unigolyn
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael ei drin ag urddas a pharch
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymwneud â'i ofal personol ei hun ac ymgynghori hyd eithaf ei allu
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i fynegi ei farn ar ei ofal personol unigol ac i wybod bod pobl yn ystyried ei safbwynt
- Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i dderbyn lefelau gofal personol sy'n addas ac yn gyson

**Cyfrifoldebau'r Ysgol**

Mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc yn destun i'r gweithdrefnau recriwtio mwy diogel. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ar leoliadau gwaith a gwirfoddolwyr. Mae'r broses fetio yn cynnwys gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dau eirda ysgrifenedig.

Dim ond yr aelodau hynny o staff sy'n gyfarwydd â pholisi gofal personol a pholisïau gofal bugeiliol eraill yr ysgol sydd i fod yn ymwneud â gofal personol plant a phobl ifainc.
Pan fo'n ddisgwyliedig; bydd yr ysgol a rhieni/gwarcheidwaid yn cytuno ar drefniadau gofal personol, ac os yw'n addas, bydd y plentyn neu berson ifanc yn cytuno hefyd. Mae trefniadau gofal personol yn cael eu llofnodi gan y rhieni/gwarcheidwaid ac yn cael eu cadw yn ffeil y disgybl.

Dylid adolygu trefniadau gofal personol o leiaf bob 6 mis. Dylid ceisio safbwyntiau pob parti perthnasol a'u hystyried er mwyn llywio trefniadau yn y dyfodol.
Os oes gan aelod o staff bryderon am arferion gofal personol cydweithiwr, rhaid i'r aelod o staff roi gwybod i'r athro/athrawes perthnasol er diogelwch y plentyn.

- Caniatáu i'r disgybl ofalu amdano'i hun cyn belled ag y bo modd, i annog annibyniaeth ac i'w annog i gyflawni agweddau ar ofal personol yn rhan o'i ddatblygiad personol a chymdeithasol. Mae modd gosod targedau ar gyfer datblygu'r sgiliau bywyd yma.
- Bydd y plentyn neu berson ifanc yn cael ei gefnogi i gyflawni'r lefel uchaf o ymreolaeth sy'n bosibl o ystyried ei oedran a'i allu. Bydd y staff yn annog pob plentyn neu berson ifanc i wneud cymaint drosto'i hun ag y mae ef neu hi'n gallu. Gall hyn olygu rhoi cyfrifoldeb i'r plentyn/person ifanc i ymolchi neu sychu'i hun yn ôl yr angen.
- Darparu cyfleusterau sy'n briodol i oedran ac anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid rhoi ystyriaeth i ethnigrwydd, diwylliant, credoau a chrefydd, a dylid nodi a dogfennu unrhyw ofynion arbennig yn ymwneud â gofal personol.
- Dangos eich bod yn effro i ymatebion y disgybl, eu cyfathrebu geiriol a di-eiriau ac unrhyw arwyddion y cytunwyd arnyn nhw ac ymateb iddyn nhw.
- Bydd hawl pob plentyn neu berson ifanc i breifatrwydd yn cael ei barchu. Rhoddir ystyriaeth ofalus i sefyllfa pob plentyn er mwyn pennu faint o warcheidwaid sydd

angen bod yn bresennol pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i'r toiled. Lle bo modd, bydd un oedolyn yn gofalu am un plentyn oni bai bod rheswm cadarn dros gael rhagor o oedolion yn bresennol, e.e. pan fo anabledd corfforol yn golygu bod angen mwy nag un aelod o staff i ddarparu gofal, neu pan fo angen diogelu staff. Os yw hyn yn wir, dylid dogfennu'r rhesymau'n glir. Er mwyn osgoi perthnasoedd gor-gyfarwydd, byddai arfer gorau yn argymell rota o staff sy'n gallu cyflawni'r dasg yma gyda'r plentyn/person ifanc. Bydd hyn yn dibynnu ar gymarebau staff mewn ysgolion unigol.
- Mae gwerth cadarnhaol i staff gwrywaidd a benywaidd gymryd rhan mewn gofal plant. Serch hynny, dylid ystyried priodoldeb rhyw yr aelod o staff i ymgymryd â thasgau gofal personol.

**Cynllun Gofal Iechyd Unigol**

Bydd angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar rai disgyblion. Mae'r cynlluniau yma'n cael eu llunio gan yr ysgol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae modd i hyn gynnwys:

- Cymorth wrth fwyta, e.e. gastrostomi (bwydo peg) a bwydo trwy diwb NG
- Gweinyddu meddyginiaeth mewn argyfwng
- Rhaglen ffisiotherapi / therapi galwedigaethol
- Tylino/rhyngweithio dwys
- Rhoi meddyginiaethau ar y croen (e.e. eli ecsema)

**Llythyr Caniatâd**

Rhaid ceisio caniatâd gan y rhiant/gwarcheidwad cyn ymgymryd ag unrhyw fath o ofal personol. Dylai pob aelod o staff sy’n gweithio gyda’r plentyn neu’r person ifanc wybod bod caniatâd wedi’i roi cyn ymgymryd ag unrhyw ofal personol. (Atodiad: A)

**Amddiffyn Plant**

Rhaid cadw at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol/lleoliad.

Os oes gan aelod o staff unrhyw bryderon am newidiadau ar gorff plentyn neu berson ifanc, e.e. marciau, cleisiau, dolur ac ati; bydd ef/hi yn rhoi gwybod am y pryderon yma ar unwaith i'r rheolwr priodol/person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Swyddog Diogelu (enw) :

Os bydd disgybl yn mynd yn ofidus neu'n anhapus ynghylch cael gofal gan aelod penodol o staff, bydd y mater yn cael ei ystyried a bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi. Cysylltir â rhieni/gwarcheidwaid cyn gynted â phosibl yn rhan o’r broses yma er mwyn dod i benderfyniad. Bydd amserlenni staffio'n cael eu newid nes bod y mater(ion) wedi'u datrys fel bod anghenion y plentyn neu berson ifanc yn parhau i fod yn hollbwysig. Cymerir cyngor pellach gan asiantaethau allanol os bydd angen.

Os bydd plentyn neu berson ifanc yn gwneud honiad yn erbyn aelod o staff, bydd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn cael eu dilyn ochr yn ochr â pholisi amddiffyn plant yr ysgol / lleoliad.

Ysgrifennwyd y polisi yma mewn ymgynghoriad â staff a chorff llywodraethu’r ysgol (enw’r ysgol) ac fe’i cymeradwywyd ar:-

Dyddiad:
Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu ar:

Llofnod y Pennaeth:

Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu:

**Atodiad B**

**Cytundeb Partneriaeth a Chaniatâd ar gyfer Gofal Personol**

**ar gyfer plentyn/person ifanc**

Ychwanegu enw/logo'r ysgol

Enw'r plentyn:

Dyddiad geni'r plentyn:

Blwyddyn ysgol y plentyn:

Athro/athrawes dosbarth a staff cymorth y disgybl:

Diben y cytundeb yma yw sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol yn cytuno â'r gofal personol sy'n cael ei ddarparu a bod aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. Mae modd i rieni/gwarcheidwaid neu weithiwr proffesiynol profiadol addysgu mathau penodol o weithdrefnau gofal.

Pan fydd rhieni/gwarcheidwaid ac/neu weithwyr proffesiynol yn cytuno bod y weithdrefn wedi'i haddysgu'n ddigonol neu pan mae angen darparu gofal personol arferol, bydd y manylion yn cael eu cofnodi'n llawn isod a rhaid i bob parti lofnodi'r cofnod a derbyn copi. Rhaid cadw copi ychwanegol ar gyfer cofnod meddygol y plentyn.

Rhesymau dros ddarparu gofal personol:

Pwy fydd yn darparu'r gofal yma (nodwch enwau a swyddi'r aelodau hynny o staff a fydd yn darparu gofal):

Manylion y gofal sy'n cael ei ddarparu:

*Caniatâd Rhiant/Gwarcheidwaid:*

Rydw i/rydyn ni'n rhoi caniatâd i'r ysgol ddarparu gofal personol i (enw'r plentyn).

Rydw i/rydyn ni'n cytuno â'r cynllun yma ac yn cydsynio â'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi.

Byddaf i/byddwn ni'n rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar ofal personol fy/ein plentyn (e.e. os yw meddyginiaeth fy/ein plentyn wedi newid neu os oes ganddo haint).

Byddaf i/byddwn ni'n cysylltu â'r ysgol ar frys os oes unrhyw bryderon.

Enw llawn y rhiant (rhieni)/gwarcheidwad (gwarcheidwaid):

Perthynas â'r plentyn:

Llofnod y rhiant (rhieni)/gwarcheidwad (gwarcheidwaid):

Dyddiad:

*Cytundeb yr Ysgol:*

Rydyn ni'n cytuno i roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am unrhyw bryderon ynghylch gofal personol eu plentyn.

Rydyn ni'n cytuno i roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid am unrhyw newidiadau i aelodau o staff neu weithdrefnau, ac unrhyw newidiadau i'r cynllun yma neu bolisi gofal personol ein hysgol.

Rydyn ni'n cytuno i drin pob plentyn â pharch ac urddas trwy ddarparu cymorth gofal personol proffesiynol a sensitif.

Enw'r Pennaeth:

Llofnod y Pennaeth:

Dyddiad:

Bydd adolygiad o'r cytundeb yma'n cael ei gynnal ar:

Canlyniad yr adolygiad: (nodwch unrhyw newidiadau i'r cynllun wrth symud ymlaen a llunio Cynllun Gofal Personol Unigol newydd yn ôl yr angen):

**Atodiad C**

## Cynllun Gofal Personol yn Amgylchedd yr Ysgol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Disgybl:** | | **Dyddiad Geni:** | |
| **Enw'r Rhiant / Gwarcheidwad:** | | **Enw Aelod o Staff Allweddol:** | |
| **Enw'r Ysgol:** | | **Grŵp Blwyddyn:** | |

| **Gwybodaeth am y Disgybl** | √ **X** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| Lefel dealltwriaeth:<br>• Perthnasol i'r cyfnod<br>• ADY perthnasol | | |
| Cyfathrebu:<br>• Defnyddio geiriau penodol i ddisgrifio rhannau'r corff<br>• Defnyddio dulliau cyfathrebu amgen | | |
| Gallu'r disgybl i gynorthwyo - rhannol/llawn | | |
| Diagnosis/gwybodaeth feddygol berthnasol: epilepsi, rheoli pen, cyflwr croen, eiddilwch, poen, arall | | |
| Ystyriaethau ymddygiad | | |
| Pwysau (os yw'n hysbys) / taldra | | |
| **Ystyriaethau amgylcheddol** | √ **X** | **Nodiadau** |
| • Oes man newid benodedig?<br>• Ydy'r fan yma'n ddigon cynnes?<br>• Oes offer addas ar gael, e.e. mat, bin, menig ac ati? | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Oes angen gris / oes gris ar gael i gyrraedd y bwrdd?<br><br>• Oes cewynnau/dillad sbâr ar gael?<br><br>• Unrhyw ystyriaethau eraill? | | |
| **Ystyriaethau Staff** | √<br>**X** | **Nodiadau** |
| • Faint o aelodau o staff oes eu hangen?<br><br>• Oes angen hyfforddiant Codi a Chario?<br><br>• Oes unrhyw ystyriaethau eraill, megis beichiogrwydd, poen cefn neu faterion eraill?<br><br>• Oes angen unrhyw hyfforddiant/gwybodaeth arall? | | |
| **Ystyriaethau Diogelu** | √<br>**X** | **Nodiadau** |
| • Cyfeiriwch at Bolisi Diogelu<br><br>• Os oes unrhyw bryderon, trafodwch â Swyddog Diogelu'r disgybl sydd wedi'i leoli yn yr ysgol | | |

**Atodiad D**

## Cynllun Rheoli Gofal Personol Unigol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Disgybl:** | | **Dyddiad Geni:** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Rhiant/Gwarcheidwad:** | | **Enw Aelod o Staff Allweddol:** | |
| **Enw'r Ysgol:** | | **Grŵp Blwyddyn:** | |

| **Man newid/defnyddio'r toiled wedi'i nodi** | |
|---|---|
| Dull newid (e.e. sefyll neu orwedd) | **Os oes gan y disgybl y gallu i sefyll, mae'r Cyngor a'r Adran Iechyd yn argymell ei fod yn sefyll wrth ei newid* |
| Adnoddau wedi'u darparu gan y rhiant/ gwarcheidwad<br><br>• Cewynnau (gan gynnwys rhai sbâr)<br>• Offer codi<br>• Padiau<br>• Cadachau<br>• Dillad sbâr<br>• Eli (yn ôl yr angen) | |
| Adnoddau wedi'u darparu gan yr ysgol:<br><br>e.e. chwistrell gwrthfacterol, rôl hylendid tafladwy, bagiau bin bioberygl, gris, tywelion papur, sebon, menig, masgiau, ffedogau. | |
| Cyfathrebu - oes modd i'r disgybl gyfathrebu bod angen cymorth gofal personol arno? Sut? Pa arwyddion oes angen i staff gadw llygad amdanyn nhw? Sut bydd staff yn cyfathrebu â disgybl ei bod hi'n bryd iddo fynd i'r toiled/ystafell newid? Oes unrhyw eiriau cod dylid eu defnyddio/eu hosgoi? | |
| Lefel y cymorth sydd ei hangen:<br><br>e.e. dadwisgo, gwisgo, golchi gwylo, ymolchi, sychu, defnyddio eli, siarad/arwyddo i'r plentyn/person ifanc. | |

| | |
|---|---|
| Storio dillad brwnt | |
| Cysondeb/patrwm defnyddio'r toiled<br><br>Pa mor aml?<br>e.e. pa mor aml yn y bore/prynhawn, seibiannau wedi'u hamseru, cytuno ar nifer y troeon er mwyn cefnogi gofal personol | |
| Dull cofnodi/monitro gofal personol | |
| Annog/cysuro: e.e. sut bydd staff yn annog/cysuro disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion gofal personol/unrhyw wobrau sy'n cael eu defnyddio?<br><br>Beth fydd yr aelod o staff yn ei wneud os yw'r plentyn/person ifanc wedi cynhyrfu yn ormodol? | |
| Gweithdrefnau cofnodi/rhoi gwybod am bryderon | |
| Trefniadau gwaredu | |
| Ystyriaethau ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle | |
| Unrhyw sylwadau/gwybodaeth bwysig arall: e.e. gwybodaeth feddygol, barn/dewisiadau/enwau penodol ar gyfer rhannau'r corff. (Argymhellir defnyddio enwau cywir ar gyfer rhannau'r corff pan fo'n bosibl)<br><br>Gwybodaeth synhwyraidd | |

**Atodiad E**

## Cofnod o Ymyrraeth Gofal Personol

| | |
|---|---|
| **Enw'r plentyn:** | |
| **Dyddiad geni:** | |

| **Dyddiad** | **Amser cyrraedd** | **Amser gadael** | **Cofnod o Ymyriad Gofal Personol** | **Aelod o Staff** | **Sylwadau** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |